**LC210**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU DRAFFT**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT DRAFT**

**Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 4) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed ar 16 Mawrth yn diwygio ymhellach ar Orchymyn Clwy'r Traed a'r Genau 1983.

Mae'r Gorchymyn hwn wedi'i wneud ar y cyd gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r Gweinidog Amaethyddiaeth am fod y trosglwyddiad swyddogaethau i'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cadw'r gofyniad i gymryd camau ar y cyd o dan y Ddeddf Iechyd Anifeiliaid.

Nid yw'r Gorchymyn hwn wedi'i wneud yn ddwyieithog, a deellir y barnwyd nad oedd hynny'n ymarferol yn yr amser a oedd ar gael.

Byddai Gorchymyn sy'n cael ei wneud ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron fel rheol yn dod o dan Adran 3 o Reol Sefydlog 23 ond nid yw hynny wedi digwydd yn yr achos hwn am nad yw Gorchmynion o dan y Ddeddf Iechyd Anifeiliaid yn dod o dan Weithdrefn Seneddol.

Cyfeiriadau at y Gweinidog Amaethyddiaeth yw'r cyfeiriadau at y 'Minister' yn y Gorchymyn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw swyddogaethau'r 'Minister' o dan y Ddeddf Iechyd Anifeiliaid (o'u cyferbynnu â swyddogaethau 'the Ministers' a swyddogaethau 'the appropriate Minister') wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Deellir na fydd cyfieithiad Cymraeg yn cael ei ddarparu ar gyfer y Gorchymyn hwn.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae Erthygl 2(2) o'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer mewnosod paragraff ychwanegol yn Erthygl 3 o Orchymyn 1983. Mynegir hyn yn nhermau mewnosod paragraff (5) newydd ar ôl paragraff (4). Ond, o roi sylw i'r cronfeydd data sydd ar gael ar hyn o bryd, ac wedi edrych ar Orchmynion diwygio Clwy'r Traed a'r Genau a wnaed yn gynharach yn y mis, nid yw'n amlwg ar unwaith fod yna baragraff (4) ar gael. Os felly, fe ddylai Erthygl (2)(2) fod wedi darparu ar gyfer mewnosod paragraff (4) newydd ar ôl paragraff (3).

Camgymeriad bach yw hwn, ond eto i gyd mae'n ymddangos ei fod yn enghraifft o ddrafftio diffygiol y byddai angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddo. Er hynny, cyn cyflwyno adroddiad, er mwyn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 11.4, fe fydd angen rhoi gwybod i'r Gweinidog Cynulliad presennol er mwyn iddo gael cyfle i roi tystiolaeth, ar lafar neu yn ysgrifenedig, i'r Pwyllgor.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y testun Cymraeg**

Nid oes un ar gael, a deellir na fwriedir creu cyfieithiad. Mae hyn yn fater y mae'r Pwyllgor eisoes wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cynulliad priodol yn ei gylch mewn cysylltiad â gorchmynion cynharach ynghylch clwy'r traed a'r genau, ac fe fydd ateb y Gweinidog yr un mor berthnasol yn y fan hon.

**Atodlen 1 – Erthygl 34**

Mae angen bwlch yn 'steps to'.

**Atodlen 1 – Erthygl 37**

Awgrymir y gall fod angen ystyried pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth hon. Mae'r gofyniad i lanhau a diheintio yn gysylltiedig â'r cysyniad bod y safle o dan sylw wedi'i wagio o anifeiliaid (*"emptied of animals"*). Yn hyn o beth gellir holi, mewn perthynas â lladd-dai bach yn benodol, pa mor aml y bydd sefyllfa o'r fath yn codi a'r safle wedi'i wagio o anifeiliaid.

**Atodlen 1 - Erthygl 37B**

Dylai ‘under this part’ ddweud “under this Part” i gyd-fynd â’r defnydd mewn mannau eraill a’i gwneud yn glir mai at Ran IV o’r Gorchymyn y cyfeirir.

**Atodlen 2**

Byddai’r cyfeiriad at “HEAVY PENALTIES” yn y ffurflen ragnodedig ar gyfer gwneud datganiad yn fwy boddhaol pe bai’n cael ei gyplysu â chyfeiriad at Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 a’r adran benodol y mae’r tramgwydd dyn codi odani. Byddai hynny’n caniatáu i’r rhai sy’n llenwi’r ffurflen darganfod pa gosb y gallent fod yn agored iddi, pe baent yn dymuno.

**D H DAVIES**
**Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

Cyf: LAD 01-01-276

21 Mawrth 2001